# Ymchwil Tai Newydd yng Ngwynedd

## Adroddiad Canlyniadau



**Dyddiad Cyflwyno:** Awst 2019 (drafft terfynol)

**Awduron:** Tîm Ymchwil a Dadansoddeg

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 1
2. Methodoleg ........ 3
3. Ystadegau am yr ymatebion gan breswylwyr tai newydd (Cam 1) ........ 7
4. Rhesymau dros symud i dŷ newydd ........ 11
5. Dilyn y ‘gadwyn’ tai ymlaen ........ 14
6. Datblygiadau o 5 tŷ neu fwy ........ 17
7. Tai Rhent Cymdeithasol newydd ........ 19
8. Prif gasgliadau ........ 21

Atodiad – Cwestiynau a holwyd ........ 23

# 1. Cyflwyniad


Caiff rhwng tua 100-300 o dai newydd eu hadeiladu yng Ngwynedd bob blwyddyn, gyda'r niferoedd wedi bod ar gynnydd ychydig yn ddiweddar (gweler Tabl 1 isod).

*Tabl 1: Anheddau newydd a gwblhawyd yng Ngwynedd* (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)

| Blwyddyn | Nifer anheddau newydd |
|---|---|
| 2008/09 | 206 |
| 2009/10 | 148 |
| 2010/11 | 169 |
| 2011/12 | 123 |
| 2012/13 | 160 |
| 2013/14 | 131 |
| 2014/15 | 189 |
| 2015/16 | 141 |
| 2016/17 | 213 |
| 2017/18 | 243 |
| 2018/19 | 277 |

O'i gymharu â'r nifer tai sydd yma eisoes, yn gyffredinol mae'r nifer tai newydd yng Ngwynedd dros y degawd diwethaf wedi bod yn is na'r patrwm cyffredinol yng Nghymru ac yng nghynghorau eraill cyfagos, er y bu cynnydd yn y niferoedd dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf (**Ffigur 1)**.

*Ffigur 1: Nifer tai newydd fel canran o'r holl stoc tai, 2008/09 i 2018/19*




*(Ffynhonnell: cyfrifiadau Tîm Ymchwil a Dadansoddeg ar sail data Tai Newydd ac Amcangyfrifon Stoc Anheddau; Ll. Cymru)*

Er hynny, mae tai newydd, a'u heffaith ar y cymunedau lle maent wedi'u lleoli, yn gallu bod yn fater cynhennus sy'n pegynnu barn. Un rheswm am hyn ydi bod yna "fwlch gwybodaeth" ynglŷn â thai newydd (yng Ngwynedd ac yn ehangach) – 'does dim gwybodaeth ddibynadwy am pa grwpiau o bobl sy'n tueddu i symud i dai newydd, o lle mae'r bobl yma yn symud, a pam eu bod yn dewis symud i dŷ newydd; mae'r ychydig wybodaeth sydd ar gael yn tueddu i fod yn dameidiog ac anecdotaidd iawn. Mae hyn yn broblem i'r Cyngor hefyd wrth lunio polisïau ym maes tai a chynllunio ac wrth ymateb i ofynion statudol, er enghraifft wrth baratoi yr Asesiad Marchnad Tai Lleol.

Ein bwriad ni yn yr ymchwil yma felly, oedd llenwi rhywfaint ar y "bwlch gwybodaeth" drwy geisio holi preswylwyr pob tŷ sydd wedi'i godi yn ddiweddar yng Ngwynedd.

Mae'r ymchwil yma wedi mynd gam ymhellach hefyd, drwy geisio dilyn y "gadwyn" tai ymlaen i'r tŷ ddaeth yn wag wrth i bobl symud i'r tŷ newydd, wedyn i'r tŷ ddaeth yn wag wrth i bobl symud i hwnnw, ac yn y blaen. Nodwedd allweddol arall yr ymchwil yma oedd ein bod yn mynd i siarad efo'r preswylwyr i gael eu "stori" nhw, eu rhesymau nhw dros symud yno, ac ati, mor llawn â phosib, yn hytrach na dibynnu ar anfon holiadur 'ticio bocs' amhersonol.

Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith ymchwil. Er na all yr un darn o ymchwil o'r math yma roi'r darlun llawn (mwy am hyn ym mhennod 2 isod), 'rydym yn ffyddiog bod yr hyn a wnaed yn helpu i daflu peth goleuni ar faes lle bu gwybodaeth bendant yn eithaf prin.

Ni fyddem wedi gallu gwneud y gwaith yma heb gymorth a chefnogaeth nifer o adrannau a gwasanaethau eraill y Cyngor ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am hynny; diolch hefyd i'r ymchwilwyr fu wrthi'n gwneud y gwaith holi a chofnodi. Ac yn bennaf oll diolch i drigolion Gwynedd fu'n fodlon rhannu eu storïau efo ni; mae pob ymateb wedi bod yn werthfawr i ni wrth roi'r darlun at ei gilydd.

# 2. Methodoleg

## Tai newydd i'w holi

Er mwyn sicrhau bod gennym restr mor gywir a chyflawn â phosib o ddatblygiadau tai newydd yng Ngwynedd, fe wnaethom waith cywiro / cysoni ar wybodaeth o nifer o wahanol ffynonellau, sef:

- Tai newydd a gwblhawyd yn dilyn ceisiadau cynllunio (gan y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd, a gan y Parc Cenedlaethol ar gyfer ardal y Parc)
- Tai newydd a brisiwyd ar gyfer y Dreth Gyngor (gan y Gwasanaeth Trethi a Budd-dal)
- Tai a werthwyd (gan y Gofrestrfa Tir)
- Unedau tai cymdeithasol newydd yng Ngwynedd (gan y Gwasanaeth Tai)

Er mwyn gallu dygymod â maint y dasg penderfynwyd yn y lle cyntaf y byddem yn cyfyngu'r ymchwil i dai newydd feddiannwyd dros y 3 neu 4 blynedd diwethaf (h.y. o'r flwyddyn 2015 ymlaen). Ond wrth edrych ar y niferoedd fe ddaeth i'r amlwg nad oes llawer o dai newydd o gwbl yn rhai rhannau o dde'r sir; fe aethom felly yn ôl ymhellach (tai a feddiannwyd o 2012 ymlaen) yn y mannau hynny.

Penderfynwyd **peidio cynnwys** rhai mathau o dai newydd oedd ar gyfer grwpiau penodol o bobl (ac felly byddai gwahanol farchnad i'w prynu / rhentu o'i gymharu â mwyafrif tai newydd Gwynedd), sef:

- llety gwyliau / chalets ayb
- tai gofal ychwanegol
- llety / neuaddau preswyl a adeiladwyd yn benodol ar gyfer myfyrwyr

Ond roedd y rhestr **yn cynnwys**:


- tai cymdeithasol a thai fforddiadwy, yn ogystal â thai werthwyd ar y farchnad agored
- tai ag 'amod person lleol' arnynt, yn ogystal â rhai heb amod
- datblygiadau yn y Parc Cenedlaethol
- trosi adeiladau dibreswyl (siopau, beudai, capeli ayb) yn unedau preswyl
- rhannu tŷ yn fwy o unedau preswyl (er mae'n anodd weithiau gwybod pa rai yw'r tai 'newydd' yn yr achosion yma)
- stadau mawr, yn ogystal â datblygiadau bychain a rhai tai unigol.

Roedd y rhestr derfynol yn cynnwys 1,015 o dai newydd, gyda'r dosbarthiad yn cael ei ddangos yn Ffigur 2 isod.

*Tabl 2: Nifer tai newydd*

| Nifer tai newydd (2015 ymlaen) | Ychwanegu tai 2012-2014 yn rhai rhannau o'r sir i gael mwy o sampl | Cyfanswm nifer tai newydd ar gyfer yr ymchwil |
|---:|---:|---:|
| 897 | 118 | 1,015 |

*Ffigur 2: Lleoliad y tai newydd*




## Holi preswylwyr tai newydd (Cam 1)

Anfonwyd llythyr at breswylwyr yr holl dai newydd ar y rhestr, yn egluro pwrpas yr ymchwil ac y byddai ymchwilydd o’r Cyngor yn galw draw yn fuan i holi ychydig o gwestiynau. Rhoddwyd gwybod i holl aelodau etholedig y Cyngor am yr ymchwil hefyd.

Aeth yr ymchwilwyr o amgylch y tai yn ystod min-nosau ym Mehefin-Gorffennaf 2018. Roeddent yn holi rhai cwestiynau safonol am y tŷ, nifer ac oedran y preswylwyr, iaith y preswylwyr / aelwyd, a lle oedd y preswylwyr yn byw cyn symud i’r tŷ newydd. Hefyd roedd yna gwestiynau mwy penagored oedd yn holi am “stori” y preswylwyr (cwestiynau fel pam roeddent wedi dewis symud i’r ardal / y tŷ, a lle fydden nhw’n debygol o fod wedi symud pe bai’r tŷ hwnnw heb fod ar gael).

Roedd yr holiadur a’r cwestiynau wedi eu profi o flaen llaw drwy holi rhai o staff y Cyngor; gweler copi o’r cwestiynau yn **Atodiad A**.

Yn anochel, mewn nifer o dai ‘roedd y preswylwyr allan, neu’n rhy brysur i ateb ar y noson y gwnaethom alw draw; yn yr achosion hynny fe adawyd cerdyn gyda manylion gwefan y gallai’r

preswylwyr fynd iddi i ymateb yn eu hamser eu hunain. ‘Doedd hyn ddim yn ddelfrydol gan mai holl fwriad anfon ymchwilwyr allan oedd gallu siarad â phobl i egluro’r cwestiynau yn iawn a chael eu “stori”, ond roedd yn fodd o gynyddu’r ymateb a sicrhau bod pawb oedd wedi cael llythyr yn cael cyfle i gymryd rhan.

Llwyddodd yr ymchwilwyr i gyrraedd **967 o dai** (sef dros 95% o’r rhestr – methwyd rhai oherwydd problemau gyda’r cyfeiriadau neu nad oedd neb yn byw ynddynt eto). O’r rhain, fe gafwyd ymateb o **351 (36.3%)** o dai.

*Tabl 3: Nifer atebion*

| Nifer tai newydd i’w holi | Nifer gyrhaeddwyd | Nifer atebodd | % atebodd o’r rhai gyrhaeddwyd |
|---|---|---|---|
| 1,015 | 967 | 351 | 36.3 |

## Holi preswylwyr y tai ddaeth yn wag wrth i bobl symud i’r tai newydd (Cam 2, 3 a 4)

Lle roedd ymatebwyr ‘Cam 1’ uchod wedi nodi eu bod wedi symud i’r tŷ newydd o rywle arall yng Ngwynedd, fe wnaed gwaith maes pellach wedyn gan fynd i’r tŷ hwnnw i holi cwestiynau tebyg i ‘Cam 1’ (ond gan eithrio’r cwestiynau oedd yn ymwneud yn benodol â’r rhesymau dros symud i dŷ newydd). Dyma ‘Gam 2’ yr ymchwil.

Wedyn os oedd preswylwyr tai ‘Cam 2’ wedi symud yno o rywle arall yng Ngwynedd, aed i’r tŷ hwnnw wedyn fel ‘Cam 3’, ac yn y blaen.

Gwnaed y gwaith maes pellach yma gyda’r nosau yn ystod Medi-Hydref 2018, gyda threfn debyg i ‘Cam 1’ ar gyfer rhoi cyfle i breswylwyr ymateb ar-lein os nad oeddent adref ar y noson.

Dangosir isod y niferoedd tai holwyd / ymatebodd yn y camau pellach yma. (Roedd yna nifer o achosion lle nodwyd bod rhywun wedi symud i dŷ newydd o rywle arall yng Ngwynedd ond bod dim tŷ wedi dod yn wag o ganlyniad i hyn – e.e. symud o dŷ rhieni, gwahanu ayb – yn amlwg nid oeddem yn mynd i’r tŷ blaenorol yn yr achosion yma).

*Tabl 4: Nifer atebion fesul cam ymchwil*

| Cam | Nifer | Nifer gyrhaeddwyd | Nifer atebodd | Nifer o’r rhain o Wynedd gynt, ac wedi rhoi cyfeiriad llawn i allu holi ymhellach |
|---|---|---|---|---|
| 1 (tai newydd) | 1,015 | 967 | 351 | 136 |
| 2 | 136 | 136 | 44 | 22 |
| 3 | 22 | 22 | 10 | 4 |
| 4 | 4 | 4 | 0 | - |

## Dehongli'r canlyniadau

Wrth edrych ar y niferoedd uchod gellir gweld bod hwn wedi bod yn ymarferiad ymchwil sylweddol a'i fod, mae'n debyg, yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr nag a fu gennym erioed o dai newydd yng Ngwynedd a'r patrymau mudo sy'n deillio ohonynt.

Er hyn mae'n bwysig peidio gorddibynnu ar ganlyniadau'r ymchwil yma gan gymryd ei fod yn dweud y cyfan wrthym. Cynhaliwyd yr ymchwil yma ar bwynt penodol mewn amser; mae'n anodd cymryd yn ganiataol y byddai yr un patrymau yn union yn cael eu hailadrodd ar gyfer unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol ble gallai niferoedd / mathau / union leoliadau'r tai newydd, a chyflwr y farchnad dai yn lleol / yn gyffredinol, fod yn wahanol.

Yn ogystal, er y cafwyd nifer fawr o ymatebion mewn cyfanswm, mae'r niferoedd yn mynd yn llai yn enwedig wrth ddilyn y gadwyn tai ymlaen (Camau 2, 3 a 4). Mae hyn yn rheswm ychwanegol dros beidio â chymryd pob canlyniad fel un manwl gywir.

## Gweddill yr adroddiad hwn

Mae **Pennod 3** yn rhoi ychydig o ystadegau am yr ymatebion ddaeth o dai newydd (Cam 1) ar draws Gwynedd, yn cynnwys y mathau o dai, nifer o bobl yn y tai, a'r ieithoedd maent yn eu siarad.

Mae **Pennod 4** yn edrych ar resymau pobl dros symud i'r tŷ newydd / yr ardal.

Mae **Pennod 5** yn edrych ar y canlyniadau gafwyd wrth geisio dilyn y 'gadwyn' tai ymlaen (Camau 2-4).

Mae **Pennod 6 a 7** yn ystyried p'run ai ydi'r canlyniadau yn wahanol ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiadau.

Mae **Pennod 8** wedyn yn bwrw golwg ar draws yr holl ganlyniadau gan amlygu'r prif gasgliadau.

# 3. Ystadegau am yr ymatebion gan breswylwyr tai newydd (Cam 1)

O'r 351 annedd newydd lle cafwyd ymateb, roedd bron 34% ohonynt yn cael eu rhentu un ai yn breifat neu gan gymdeithas dai.

*Tabl 5: Cam 1 – Perchen neu rentu y tŷ*

| Perchen neu rentu y tŷ | Nifer | % |
|---|---|---|
| Perchen | 227 | 64.7 |
| Rhan-berchnogi | 3 | 0.9 |
| Rhentu preifat | 59 | 16.8 |
| Rhentu cymdeithasol | 60 | 17.1 |
| Heb ateb | 2 | 0.6 |
| **Cyfanswm** | **351** | **100.0** |

Y math mwyaf cyffredin o dŷ newydd a gawsom ymateb ganddynt oedd tŷ "ar wahân".

*Tabl 6: Cam 1 – Math o dŷ*

| Math o dŷ | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ar wahân | 150 | 42.7 |
| Fflat neu maisonette | 62 | 17.7 |
| Semi | 92 | 26.2 |
| Teras | 33 | 9.4 |
| Byngalo | 6 | 1.7 |
| Arall | 6 | 1.7 |
| Heb ateb | 2 | 0.6 |
| **Cyfanswm** | **351** | **100.0** |

Roedd mwyafrif y tai newydd a gawsom ymateb ganddynt â 2 neu 3 ystafell wely.

*Tabl 7: Cam 1 – Nifer ystafelloedd gwely*

| Nifer ystafelloedd gwely | Nifer | % |
|---|---|---|
| 1 | 24 | 6.8 |
| 2 | 97 | 27.6 |
| 3 | 146 | 41.6 |
| 4 | 70 | 19.9 |
| 5 | 10 | 2.8 |
| 7 | 3 | 0.9 |
| Heb ateb | 1 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **351** | **100.0** |

Yn y 351 o dai atebodd yr holiadur roedd cyfanswm o 891 o bobl yn byw ynddynt; sef tua 2.5 person i bob tŷ.

*Tabl 8: Cam 1 – Nifer pobl yn y tŷ*

| Nifer pobl yn y tŷ | Nifer cartrefi | Cyfanswm Pobl |
|---:|---:|---:|
| 1 | 69 | 69 |
| 2 | 132 | 264 |
| 3 | 66 | 198 |
| 4 | 67 | 268 |
| 5 | 13 | 65 |
| 6 | 1 | 6 |
| 7 | 3 | 21 |
| **Cyfanswm** | **351** | **891** |

Mae mwyafrif y bobl sydd wedi symud i dŷ newydd yn y grŵp oedran 25-44 oed. O'r sampl oedd gennym, dim ond un person dros 85 oed oedd wedi symud i dŷ newydd yng Ngwynedd.

*Tabl 9: Cam 1 – Oedran yr ymatebwyr*

| Oedran | Nifer | % |
|---:|---:|---:|
| 0-2 | 47 | 5.3 |
| 3-11 | 146 | 16.4 |
| 12-17 | 45 | 5.1 |
| 18-24 | 85 | 9.5 |
| 25-44 | 304 | 34.1 |
| 45-64 | 167 | 18.7 |
| 65-84 | 88 | 9.9 |
| 85+ | 1 | 0.1 |
| Heb ateb | 8 | 0.9 |
| **Cyfanswm** | **891** | **100.0** |

## Iaith yr unigolion

O'r 891 o bobl, nododd 613 (69%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

*Tabl 10: Cam 1 – Nifer yn gallu siarad Cymraeg*

| | Gallu siarad Cymraeg | % gallu siarad Cymraeg |
|---|---:|---:|
| Ydi | 613 | 68.8 |
| Nac ydi | 269 | 30.2 |
| Heb ateb | 9 | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **891** | **100.0** |

O'r bobl 3 oed a throsodd roedd 68**%** yn gallu siarad Cymraeg (577 allan o 844), sy'n cymharu â chyfran o 65**%** ar gyfer Gwynedd yng Nghyfrifiad 2011. Felly **roedd y cyfran o breswylwyr tai newydd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn debyg iawn i'r cyfran ymysg poblogaeth Gwynedd yn gyffredinol**.

Mae'r patrwm fesul grŵp oedran (tabl isod) yn awgrymu, o'r bobl sydd yn byw mewn tai newydd, fod pobl ieuengach yn fwy tebygol o fod yn gallu siarad Cymraeg na phreswylwyr hŷn.

*Tabl 11: Cam 1 – grŵp oedran*

| Oedran | **Gallu siarad Cymraeg** | | **Ddim yn gallu siarad Cymraeg** | | **Heb ateb** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0-2 | 36 | 77% | 9 | 19% | 2 | 4% |
| 3-11 | 133 | 91% | 13 | 9% | 0 | 0% |
| 12-17 | 38 | 84% | 7 | 16% | 0 | 0% |
| 18-24 | 56 | 66% | 29 | 34% | 0 | 0% |
| 25-44 | 207 | 68% | 93 | 31% | 4 | 1% |
| 45-64 | 97 | 58% | 70 | 42% | 0 | 0% |
| 65-84 | 41 | 47% | 46 | 52% | 1 | 1% |
| 85+ | 1 | 100% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Heb ateb | 4 | 50% | 2 | 25% | 2 | 25% |
| Cyfanswm | **613** | **69%** | **269** | **30%** | **9** | **1%** |

## Iaith y cartref

Ar gyfer y cartrefi un person – holwyd beth oedd eu hiaith gyntaf.

*Tabl 12: Cam 1 – Cartrefi un aelwyd - Iaith gyntaf*

| **Iaith** | **Nifer Cartrefi** | **%** |
|---|---|---|
| Cymraeg | 22 | 31.9 |
| Saesneg | 39 | 56.5 |
| Arall | 7 | 10.1 |
| Heb ateb | 1 | 1.5 |
| **Cyfanswm** | **69** | **100.0** |

Ar gyfer y cartrefi mwy nag un person – holwyd pa iaith oedd yn cael ei siarad fwyaf ar yr aelwyd.

*Tabl 13: Cam 1 – Cartrefi mwy nag un person – Iaith yr aelwyd*

| **Iaith** | **Nifer Cartrefi** | **%** |
|---|---|---|
| Cymraeg | 120 | 42.6 |
| Saesneg | 140 | 49.6 |
| Arall | 19 | 6.7 |
| Heb ateb | 3 | 1.1 |
| **Cyfanswm** | **282** | **100.0** |

O gyfuno'r ddau set o ganlyniadau uchod, fe welir (isod) fod y Gymraeg yn iaith gyntaf / iaith yr aelwyd i tua 40% o'r tai newydd a holwyd, a'r Saesneg i tua 50% ohonynt. Yn anffodus nid oes ystadegau cyfatebol yn bodoli am y patrwm ymysg poblogaeth Gwynedd yn gyffredinol.

*Tabl 14: Cam 1: Iaith yr aelwyd / iaith gyntaf*

| Iaith | Nifer Cartrefi | % |
|---|---|---|
| Cymraeg | 142 | 40.5 |
| Saesneg | 179 | 51.0 |
| Arall | 26 | 7.4 |
| Heb ateb | 4 | 1.1 |
| **Cyfanswm** | **351** | **100.0** |

## O ble mae pobl yn symud

Roedd 72% o breswylwyr y tai newydd wedi symud yno o dŷ arall yng Ngwynedd. Roedd 9% wedi symud o Ynys Môn / Conwy, 11% o Loegr, ac 8% o weddill Cymru neu wledydd eraill.

*Tabl 155: Cam 1 – O ble mae pobl yn symud*

| O lle | Nifer | % |
|---|---|---|
| O fewn Gwynedd | 641 | 71.9% |
| Lloegr | 100 | 11.2% |
| Conwy a Môn | 77 | 8.6% |
| Gweddill Cymru | 4 | 0.4% |
| Arall | 69 | 7.7% |
| | **891** | **100.0%** |

# 4. Rhesymau dros symud i dŷ newydd

Crynhoir isod y prif ymatebion i'r cwestiynau mwy 'penagored' oedd yn ceisio cael "stori" preswylwyr y tai newydd i gael at y rhesymau pam roeddynt wedi symud i eiddo newydd yn yr ardal.

**Pam wnaethoch chi symud yma?**

Roedd rhesymau'r ymatebwyr yn eithaf amrywiol ond nododd dros 20% mai lleoliad y tŷ newydd oedd y rheswm dros symud, gyda nifer hefyd wedi symud oherwydd eu bod eisiau tŷ mwy, eisiau tŷ eu hunain neu o'r farn bod tŷ newydd o safon uchel ac yn rhoi gwerth am arian.

*Tabl 16: Rhesymau dros symud*

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Lleoliad y tŷ | 100 | 20.2% |
| Angen tŷ mwy | 40 | 8.1% |
| Eisiau eiddo ei hun / eu hunain | 39 | 7.9% |
| Tŷ o safon / gwerth am arian | 37 | 7.5% |
| Angen eiddo llai | 32 | 6.5% |
| Wedi hoffi'r tŷ | 31 | 6.3% |
| Newid mewn amgylchiadau bywyd - dechrau newydd | 28 | 5.7% |
| Yr eiddo yma oedd ar gael ar y pryd | 27 | 5.5% |
| Golygfeydd / Amgylchedd naturiol / Cefn gwlad | 26 | 5.3% |
| Ddim yn hoffi lle roeddem yn byw e.e. lefel trosedd a sŵn | 24 | 4.9% |
| Addasrwydd y tŷ i anghenion personol | 22 | 4.5% |
| Ar gyfer ein ymddeoliad | 19 | 3.8% |
| Rhent/prisiau fforddiadwy | 14 | 2.8% |
| Angen mwy o le parcio/garej | 11 | 2.2% |
| Nabod y person oedd yn rhentu'r tŷ | 7 | 1.4% |
| Wedi cael ein gorfodi o'r tŷ blaenorol | 6 | 1.2% |
| Eisiau ail gartref | 3 | 0.6% |
| Heb ateb / Ddim eisiau dweud | 28 | 5.7% |
| | **494** | |

*allan o 351 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)*

**Pam symud i'r ardal yma?**

Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr wedi symud o dŷ arall yn yr un ardal. O'r gweddill, y prif reswm dros symud oedd lleoliad gwaith / bod yn agosach at waith, gyda nifer hefyd yn nodi eu bod eisiau bod yn agosach at deulu / ffrindiau neu'n agosach at gyfleusterau a chysylltiadau trafnidiaeth yn yr ardal.

*Tabl 17: Pam symud i'r ardal?*

| | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| Byw yn yr un ardal yn barod – aros o fewn yr ardal | 174 | 35.7% |
| Lleoliad gwaith / agosach at gwaith | 79 | 16.2% |
| I fod yn agosach at deulu / ffrindiau agos | 60 | 12.3% |
| Cyfleusterau / cysylltiadau yn yr ardal | 37 | 7.6% |
| Er mwyn ysgol i'r plant - safon addysgu / clybiau cyn ac ar ôl ysgol | 35 | 7.2% |
| I gael bywyd distawach / llai poblog / bywyd brafiach | 24 | 4.9% |
| I fynychu'r brifysgol | 21 | 4.3% |
| Rhywle lle'n gallu fforddio prynu / rhentu | 11 | 2.3% |
| Lle addas i fagu plant | 6 | 1.2% |
| Llai o drosedd yn yr ardal | 4 | 0.8% |
| Ardal Gymreig | 4 | 0.8% |
| Arfer rhentu - wedi gallu prynu tŷ | 2 | 0.4% |
| Heb ateb | 31 | 6.4% |
| | **488** | |

*allan o 351 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)*

**Pam dewis tŷ newydd?**

Yr ateb mwyaf cyffredin oedd oherwydd nad oes gwaith ar dŷ newydd, a'r gwarant / llai o gostau cynnal ynghlwm â thŷ newydd. Nododd bron draean yr ymatebwyr nad oeddent wedi chwilio am dŷ newydd fel y cyfryw (h.y. eu bod un ai wedi'u lleoli yno gan Gymdeithas Dai ayb, mai'r lleoliad oedd yn bwysig yn hytrach na'r ffaith ei fod yn dŷ newydd, neu fod y rhent yn is). Nododd cyfran hefyd ei bod yn haws neu'n rhatach cael plot o dir i adeiladu arno yn hytrach na phrynu tŷ adeiladwyd eisoes.

*Tabl 18: Pam dewis tŷ newydd?*

| | Nifer | % |
|---|---:|---:|
| Cyfleustra - Dim gwaith ar dŷ newydd / llai o gostau cynnal / gwarant tŷ newydd | 125 | 31.9% |
| Wedi ei gael gan y Cyngor / Cymdeithas Tai | 57 | 14.5% |
| Lleoliad, nid tŷ newydd oedd y prif reswm | 46 | 11.7% |
| Wedi medru cael plot i adeiladu arno | 35 | 8.9% |
| Adeilad wedi ei drosi - h.y. dim tŷ newydd sbon | 25 | 6.4% |
| Tŷ y gallem fforddio | 23 | 5.9% |
| Cost y rhent oedd y rheswm a dim oherwydd mai tŷ newydd oedd o | 20 | 5.1% |
| Cynllun Cymorth i Brynu Cymru | 20 | 5.1% |
| Heb ateb | 41 | 10.5% |
| | **392** | |

*allan o 351 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)*

**Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?**

Ar gyfer y cwestiwn yma fe welwyd rhywfaint o wahaniaeth yn yr ymatebion, yn dibynnu ar p'run ai oedd yr ymatebydd wedi symud i'r tŷ newydd o fewn yr un ardal neu wedi symud yno o ardal arall.

O'r rhai oedd yn byw yn weddol agos i'r tŷ newydd o'r blaen, byddai tua 80% ohonynt wedi symud i dŷ arall yn yr un ardal pe bai'r tŷ newydd heb fod ar gael. Ni fyddai tua 10% wedi symud tŷ o gwbl.

Ymhlith ymatebwyr oedd wedi symud ardal wrth symud i'r tŷ newydd, roedd y darlun ychydig yn fwy cymysg gyda tua'u hanner yn nodi y byddent wedi symud i dŷ arall o fewn yr un ardal leol, ond tua 15% yn fwy hyblyg o ran ardal ac yn meddwl y byddent wedi symud i ran arall o Wynedd neu o ogledd Cymru. Dywedodd tua 15% arall na fyddent wedi symud o gwbl.

*Tabl 19: Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?*

| | **Nifer** |
|---|---:|
| ***Pobl oedd yn byw yn weddol agos i'r tŷ newydd o'r blaen:*** | |
| Symud i dŷ arall o fewn yr un ardal leol | 124 |
| Symud i ardal arall yng Ngwynedd | 6 |
| Symud i ran arall o ogledd Cymru, tu allan i Wynedd | 4 |
| Symud tu allan i ogledd Cymru | 1 |
| Ni fyddem wedi symud tŷ | 18 |
| Ddim yn siŵr | 6 |
| | **159** |
| | |
| ***Pobl oedd wedi symud i'r tŷ newydd o'r tu allan i'r ardal leol:*** | |
| Symud i dŷ arall yn yr un ardal leol | 68 |
| Symud i ardal arall yng Ngwynedd | 10 |
| Symud i ran arall o ogledd Cymru, tu allan i Wynedd | 10 |
| Symud tu allan i ogledd Cymru | 2 |
| Heb symud (wedi aros mewn ardal arall o Wynedd) | 8 |
| Heb symud (wedi aros mewn rhan arall o ogledd Cymru, tu allan i Wynedd) | 4 |
| Heb symud (wedi aros yn rhywle tu allan i ogledd Cymru) | 6 |
| Ddim yn siŵr | 14 |
| | **122** |
| | |
| Heb ateb | 70 |
| | **351** |

# 5. Dilyn y 'gadwyn' tai ymlaen

Lle roedd ymatebwyr 'Cam 1' uchod wedi nodi eu bod wedi symud i'r tŷ newydd o rywle arall yng Ngwynedd, fe wnaed gwaith maes pellach wedyn gan fynd i'r tŷ hwnnw i holi cwestiynau tebyg i 'Cam 1' (ond gan eithrio'r cwestiynau oedd yn ymwneud yn benodol â'r rhesymau dros symud i dŷ newydd). Dyma 'Gam 2' yr ymchwil.

Wedyn os oedd preswylwyr tai 'Cam 2' wedi symud yno o rywle arall yng Ngwynedd, aed i'r tŷ hwnnw wedyn fel 'Cam 3', ac yn y blaen.

## Ystadegau Cam 2

Bu i 44 tŷ ymateb allan o 136 y bu i ni holi (32%), gyda 120 o unigolion yn byw yn y tai yma.

*Tabl 20: Cam 2 – O ble mae pobl yn symud*

| O lle | Nifer unigolion | % |
|---|---:|---:|
| O fewn Gwynedd | 86 | 71.7% |
| Lloegr | 19 | 15.8% |
| Conwy a Môn | 8 | 6.7% |
| Gweddill Cymru | 2 | 1.7% |
| Arall | 5 | 4.2% |
| **Cyfanswm** | **120** | **100.0%** |

Mae'r patrwm yn debyg iawn i ganlyniadau Cam 1 gyda 72% wedi symud o fewn Gwynedd yng Ngham 1 a Cam 2. Mae ychydig mwy wedi dod o Loegr i dai yng Ngham 2 (16%, o'i gymharu â 11% yng Ngham 1).

*Tabl 21: Cam 2: Gallu siarad Cymraeg*

| Gallu siarad Cymraeg | Nifer unigolion | % |
|---|---:|---:|
| Ydi | 80 | 66.7% |
| Nac ydi | 39 | 32.5% |
| Heb ateb | 1 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **120** | **100.0%** |

Eto, mae'r patrwm yn debyg iawn o ran y canran sy'n gallu siarad Cymraeg (67% yn Cam 2, o'i gymharu â 69% yng Ngham 1).

*Tabl 22: Cam 2: Iaith yr aelwyd / iaith gyntaf*

| Iaith y Cartref | Nifer Cartrefi | % |
|---|---|---|
| Cymraeg | 18 | 40.9% |
| Saesneg | 24 | 54.5% |
| Arall | 1 | 2.3% |
| Heb ateb | 1 | 2.3% |
| **Cyfanswm** | **44** | **100.0** |

Eto, mae'r patrwm yn debyg iawn o ran y canran sy'n nodi mae Cymraeg yw prif iaith y cartref, gyda 41% yng Ngham 2 a Cham 1 fel ei gilydd.

## Ystadegau Cam 3

Bu i 10 tŷ ymateb allan o 22 y bu i ni holi (45%), gyda 28 o unigolion yn byw yn y tai yma.

*Tabl 23: Cam 3 – O ble mae pobl yn symud*

| O lle | Nifer unigolion | % |
|---|---|---|
| O fewn Gwynedd | 19 | 67.9% |
| Lloegr | 1 | 3.6% |
| Conwy a Môn | 4 | 14.3% |
| Heb ateb | 4 | 14.3% |
| **Cyfanswm** | **28** | **100.0%** |

Mae'r patrwm yn debyg iawn i ganlyniadau Camau 1 a 2 gyda 72% wedi symud o fewn Gwynedd yng Ngham 1 a Cham 2 a 68% yng Ngham 3. Yng Ngham 3, 4% ddaeth o Loegr, sydd yn llai nag yng Ngham 1 (11%) a Cam 2 (16%).

*Tabl 24: Cam 3: Gallu siarad Cymraeg*

| Gallu siarad Cymraeg | % |
|---|---|
| Ydi | 46.4% |
| Nac ydi | 53.6% |
| Heb ateb | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** |

Mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn Cam 3 yn gostwng i 46%, sydd yn sylweddol is na'r canran oedd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngham 1 (69%) a Cam 2 (67%).

*Tabl 2516: Cam 3: Iaith yr aelwyd / iaith gyntaf*

| Iaith y Cartref | Nifer Cartrefi | % |
|---|---|---|
| Cymraeg | 0 | 0.0% |
| Saesneg | 9 | 90.0% |
| Arall | 1 | 10.0% |
| Heb ateb | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | **10** | **100.0** |

Erbyn Cam 3 nid oedd yr un o’r 10 tŷ ymatebodd wedi nodi mai Cymraeg yw prif iaith y cartref.

## Camau dilynol

Fel nodwyd ym mhennod 2 nid oeddem yn gallu dilyn y ‘gadwyn’ ymhellach ar ôl Cam 3; 4 cyfeiriad yng Ngwynedd oedd ar ôl ar gyfer Cam 4 ac ni chawsom ymateb o’r rheiny.

# 6. Datblygiadau o 5 tŷ neu fwy

Mae'r bennod yma yn dadansoddi ar wahân y canlyniadau ar gyfer datblygiadau 'mawr' sef 5 tŷ neu fwy (defnyddir y trothwy yma er mwyn cysondeb â'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft ar Gymunedau Nodedig a Chynaliadwy). Drwy hyn gellir gweld a oes gwahaniaeth o sylwedd yn y canlyniadau rhwng datblygiadau 'mawr' a datblygiadau 'bach' (llai na 4 tŷ).

O'r 351 annedd newydd lle cafwyd ymateb, roedd 238 (68%) ohonynt yn rhan o ddatblygiad 'mawr'. Roedd 604 o bobl wedi dod i fyw yn y tai yma ac o'r rhain roedd 66% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg.

*Tabl 26: Tai newydd yn rhan / ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy*

| | Nifer Tai | Nifer Pobl | % pobl gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Rhan o ddatblygiad 5 tŷ neu fwy | 238 | 604 | 66% |
| Ddim yn rhan o ddatblygiad 5 tŷ neu fwy | 113 | 287 | 74% |
| **Cyfanswm** | **351** | **891** | **69%** |

Prin iawn oedd y gwahaniaethau o ran lle roedd pobl yn byw cyn symud i'r tai newydd. Roedd 72% o breswylwyr datblygiadau 'mawr' wedi symud yno o fewn Gwynedd, sef yn union yr un canran ag yn y tai newydd mewn datblygiadau 'bach'. Yr un oedd y patrwm o ran y rhai symudodd o Loegr (10% yn y datblygiadau 'mawr', o'i gymharu ag 14% yn y datblygiadau 'bach').

*Tabl 27: Tai newydd yn rhan / ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy – o ble mae pobl wedi symud*

| | Datblygiad 5 tŷ neu fwy | Datblygiad sy'n llai na 5 tŷ | Gwynedd |
|---|---|---|---|
| O fewn Gwynedd | 71.9% | 72.1% | 71.9% |
| Lloegr | 9.8% | 14.3% | 11.2% |
| Conwy a Môn | 10.9% | 3.8% | 8.6% |
| Gweddill Cymru | 0.3% | 0.7% | 0.4% |
| Arall | 7.1% | 9.1% | 7.7% |
| | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

O ran yr iaith Gymraeg, gwelwyd rhywfaint o wahaniaeth rhwng preswylwyr tai newydd mewn datblygiadau 'bach' (74% yn gallu siarad Cymraeg) a'r rhai mewn datblygiadau 'mawr' (66% yn gallu siarad Cymraeg).

*Tabl 28: Tai newydd yn rhan / ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy – gallu i siarad Cymraeg*

| **Gallu siarad Cymraeg** | **Datblygiad 5 tŷ neu fwy** | **Datblygiad sy'n llai na 5 tŷ** | **Gwynedd** |
|---|---|---|---|
| Ydi | 66.2% | 74.2% | 68.8% |
| Nac ydi | 32.9% | 24.4% | 30.2% |
| Heb ateb | 0.8% | 1.4% | 1.0% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

O ran prif iaith yr aelwyd, gwelwyd rhywfaint o wahaniaeth rhwng preswylwyr tai newydd mewn datblygiadau 'bach' (46% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref) a'r rhai mewn datblygiadau 'mawr' (37% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref).

*Tabl 29: Tai newydd yn rhan / ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy – prif iaith y cartref*

| **Prif Iaith y cartref** | **Datblygiad 5 tŷ neu fwy** | **Datblygiad sy'n llai na 5 tŷ** | **Gwynedd** |
|---|---|---|---|
| Cymraeg | 37.0% | 46.0% | 40.5% |
| Saesneg | 52.9% | 49.6% | 51.0% |
| Arall | 8.8% | 3.5% | 7.4% |
| Heb ateb | 1.3% | 0.9% | 1.1% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

# 7. Tai Rhent Cymdeithasol newydd

Yn yr un modd mae'r bennod yma yn rhannu'r canlyniadau rhwng tai newydd rhent cymdeithasol a thai newydd eraill, er mwyn gweld a oes unrhyw wahaniaethau o sylwedd yn y canlyniadau.

O'r 351 annedd newydd lle cafwyd ymateb, roedd 60 (17%) ohonynt yn rhai Rhent Cymdeithasol. Roedd 177 o bobl wedi dod i fyw yn y tai yma ac o'r rhain roedd 74% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg.

*Tabl 30: Tai newydd oedd yn / ddim yn  rhai Rhent Cymdeithasol*

| | Nifer Tai | Nifer Pobl | % pobl gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|
| Tŷ newydd rhent cymdeithasol | 60 | 177 | 74% |
| Ddim yn dŷ rhent cymdeithasol | 291 | 714 | 68% |
| **Cyfanswm** | **351** | **891** | **69%** |

Roedd y symudiadau i dai newydd rhent cymdeithasol yn fwy "lleol" eu natur, ar y cyfan, na symudiadau i dai newydd nad oedd yn rhai rhent cymdeithasol. Roedd 92% o breswylwyr tai newydd rhent cymdeithasol wedi symud yno o fewn Gwynedd (o'i gymharu â 67% yn y tai newydd nad oeddynt yn dai cymdeithasol). Tua 2% oedd wedi symud o Loegr (o'i gymharu ag 13% yn y tai newydd nad oeddynt yn dai cymdeithasol).

*Tabl 31: Tai newydd oedd yn / ddim yn rhai Rhent Cymdeithasol – o ble mae pobl wedi symud*

| | Rhent Cymdeithasol | Ddim yn Rhent Cymdeithasol | Gwynedd |
|---|---|---|---|
| O fewn Gwynedd | 91.5% | 67.1% | 71.9% |
| Lloegr | 2.3% | 13.4% | 11.2% |
| Conwy a Môn | 4.5% | 9.7% | 8.6% |
| Gweddill Cymru | 0.0% | 0.6% | 0.4% |
| Arall | 1.7% | 9.2% | 7.7% |
| | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

Roedd cyfran fymryn uwch o breswylwyr tai newydd rhent cymdeithasol yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â phreswylwyr tai newydd nad oedd yn rhai rhent cymdeithasol (74% o'i gymharu â 68%).

*Tabl 32: Tai newydd oedd yn / ddim yn rhai Rhent Cymdeithasol – gallu i siarad Cymraeg*

| Gallu siarad Cymraeg | Rhent Cymdeithasol | Ddim yn Rhent Cymdeithasol | Gwynedd |
|---|---|---|---|
| Ydi | 74.0% | 67.5% | 68.8% |
| Nac ydi | 25.4% | 31.4% | 30.2% |
| Heb ateb | 0.6% | 1.1% | 1.0% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

O ran prif iaith yr aelwyd, gwelwyd rhywfaint o wahaniaeth rhwng preswylwyr tai newydd nad oedd yn rhai rhent cymdeithasol (41% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref) a'r rhai oedd mewn datblygiadau rhent cymdeithasol (37% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref).

*Tabl 33: Tai newydd oedd yn / ddim yn rhai Rhent Cymdeithasol – prif iaith y cartref*

| **Prif Iaith y cartref** | **Rhent Cymdeithasol** | **Ddim yn Rhent Cymdeithasol** | **Gwynedd** |
|---|---:|---:|---:|
| Cymraeg | 36.7% | 41.2% | 40.5% |
| Saesneg | 60.0% | 49.1% | 51.0% |
| Arall | 3.3% | 8.2% | 7.4% |
| Heb ateb | 0.0% | 1.4% | 1.1% |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **100.0%** | **100.0%** |

# 8. Prif gasgliadau

**Pwy sy'n symud i dai newydd, ac o lle**

- Mewn cyfanswm, roedd 72% o breswylwyr y tai newydd wedi symud yno o dŷ arall yng Ngwynedd. Roedd y ganran yma yr un fath ar gyfer tai newydd oedd yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy, ond yn sylweddol uwch ar gyfer tai rhent cymdeithasol newydd gyda 92% o'r preswylwyr wedi symud o dŷ arall yng Ngwynedd.

- Mewn cyfanswm roedd 9% wedi symud o Ynys Môn / Conwy, 11% o Loegr, ac 8% o weddill Cymru neu wledydd eraill. Eto mae'r canrannau ar gyfer tai newydd oedd yn rhan o ddatblygiad 5 tŷ neu fwy yn eithriadol o debyg, gyda llai o du allan i Wynedd yn symud i'r tai rhent cymdeithasol (2% o Loegr a 5% o Ynys Môn / Conwy).

- Roedd y canran uchaf o'r rhai symudodd yn y grŵp oedran 25 – 44 oed, sef 34%. Dim ond 10% o'r bobl symudodd i'r tai newydd oedd dros 65 oed. Roedd ychydig dros chwarter (27%) preswylwyr y tai newydd yn blant dan 18 oed.

**Y tai lle 'roedd preswylwyr y tai newydd yn byw o'r blaen**

- Mae'r dystiolaeth ynglŷn â symudiadau eraill yn y "gadwyn" tai – h.y. pwy oedd yn symud i dai ddaeth yn wag wrth i bobl symud i dai newydd – yn fwy amwys oherwydd nifer fychan yr ymatebion.

- Ond at ei gilydd, mae yna awgrym fod y symudiadau hynny yn cael eu cadw yn lleol gan mwyaf, gyda tua 60% o'r rhain yn cael eu cadw o fewn yr un ardal leol.

- Roedd tua 10% arall o'r symudiadau "pellach" yma o ardaloedd eraill o Wynedd, a tua 8% o Ynys Môn. Tua 13% oedd wedi symud o Loegr.

- At ei gilydd felly, mae yna awgrym bod y farchnad ar gyfer y tai yn y "gadwyn" (h.y. y tai ddaeth yn wag wrth i bobl symud i dai newydd) yn debyg i'r farchnad ar gyfer y tai newydd eu hunain, drwy bod cyfran uchel o'r tai yn mynd i bobl leol yn hytrach nag i bobl tu allan i'r sir. Ond unwaith eto rhaid pwysleisio ei bod yn anodd dweud i sicrwydd oherwydd niferoedd isel yr ymatebion.

**Iaith**

- Roedd y cyfran o breswylwyr y tai newydd oedd yn siarad Cymraeg (sef 68%) yn debyg iawn i'r cyfran ymysg poblogaeth Gwynedd yn gyffredinol yn y Cyfrifiad diwethaf (sef 65%).

- Mae'r patrwm fesul grŵp oedran yn dangos fod preswylwyr ieuengach tai newydd yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na rhai hŷn, gyda 91% o blant 3 – 11 oed a 68% o bobl 25-44 oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r cyfran isaf (sef 47%) ymhlith y grŵp oedran 65 – 84 oed.

- Roedd preswylwyr tai newydd mewn datblygiadau "bychan" (4 tŷ neu lai) ychydig yn fwy tebygol o fod yn gallu siarad Cymraeg na phreswylwyr datblygiadau mwy (74% o'i gymharu â 66%). Hefyd roedd cyfran fymryn uwch o breswylwyr tai newydd rhent cymdeithasol yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â phreswylwyr tai newydd eraill (74% o'i gymharu â 68%).

**Pam fod pobl yn symud i dŷ newydd**

- Roedd y rhesymau pam roedd pobl wedi symud i dŷ newydd yn eithaf amrywiol – lleoliad y tŷ oedd y rheswm roddwyd amlaf, gyda'r angen am dŷ mwy o faint, yr angen i gael tŷ eu hunain a'r syniad bod tŷ newydd o 'safon' well ac yn rhoi gwell gwerth-am-arian yn ystyriaethau pwysig hefyd.

- O'r bobl oedd wedi symud ardal er mwyn symud i dŷ newydd, y prif reswm dros symud oedd lleoliad gwaith / bod yn agosach at waith, gyda nifer hefyd yn nodi eu bod eisiau bod yn agosach at deulu / ffrindiau neu'n agosach at gyfleusterau a chysylltiadau trafnidiaeth yn yr ardal.

- O ran y rheswm dros ddewis tŷ newydd yn benodol, cyfleustra (dim costau / gwaith cynnal a chadw, a gwarant ar dŷ newydd) oedd yr ateb mwyaf cyffredin. 'Doedd tua traean yr ymatebwyr ddim wedi chwilio am dŷ newydd fel y cyfryw (y lleoliad oedd yn bwysig, neu'r ffaith fod y rhent yn is neu y cawsant eu lleoli yno gan gymdeithas dai). Nododd cyfran hefyd ei bod yn haws neu'n rhatach cael plot o dir i adeiladu arno yn hytrach na phrynu tŷ adeiladwyd eisoes.

- Roedd tua 80% o'r bobl oedd wedi symud i dŷ newydd o dŷ arall yn yr un ardal yn nodi y byddent wedi chwilio am dŷ arall yn yr ardal honno pe bai'r tŷ newydd heb fod ar gael.

- Ymhlith pobl oedd wedi symud o ardaloedd eraill roedd y darlun yn fwy cymysg; roedd gan tua'u hanner awydd penodol i symud i'r ardal honno, ond byddai eraill wedi chwilio mewn ardaloedd / siroedd cyfagos fel arall.

I'r dyfodol, byddai'n ddefnyddiol cadw llygad ar dueddiadau prynu a rhentu tai newydd i weld a fydd y patrymau uchod yn parhau'n gyson neu a fyddent yn newid mewn ymateb i ffactorau fel newid ym math / lleoliad y tai fydd ar gael, tueddiadau yn y farchnad dai yn lleol ac yn genedlaethol, newid yn y boblogaeth ac yn nyheadau prynwyr, ayb. I'r perwyl yma efallai fod lle i edrych ar y posibiliadau ar gyfer cydweithio efo datblygwyr tai, cymdeithasau tai ayb i geisio casglu gwybodaeth o'r math yma wrth i dai newydd gael eu prynu a'u rhentu.

# Atodiad – Cwestiynau a holwyd

*Am y tŷ*

1. Chi ydi perchennog/tenant cyntaf y tŷ?
   - Ia / Na

2. Perchen neu rentu y tŷ?
   - Perchen / Rhentu preifat / Rhentu cymdeithasol / Rhan-berchnogi

3. Blwyddyn prynu/rhentu i ddechrau?

   _______________

4. Math o dŷ?
   - Ar wahân / Semi / Teras / Byngalo / Fflat neu maisonette / Arall

5. Sawl ystafell wely?

   ______

*Amdanoch chi + eraill sy'n byw yn y tŷ*

1. Faint o bobl sy'n byw yma fel arfer?

   ______

Am y bobl sy'n byw yma fel arfer:

| | 2. Oedran (0-2)(3-11)(12-17)(18-24)(25-44)(45-64)(65-84)(85+) | 3. Gallu siarad Cymraeg? | 4. Lle yn byw fel arfer cyn symud i'r tŷ yma? *(+ manylion e.e. gwerthu? symud o adref?)* |
|---|---|---|---|
| Person 1 | | Ydi / Nac ydi | |
| Person 2 | | Ydi / Nac ydi | |
| Person 3 | | Ydi / Nac ydi | |
| Person 4 | | Ydi / Nac ydi | |
| Person 5 | | Ydi / Nac ydi | |
| Person 6 | | Ydi / Nac ydi | |
| Person 7 | | Ydi / Nac ydi | |
| Person 8 | | Ydi / Nac ydi | |

*Iaith y cartref*

<u>Os oes 2+ o bobl yn byw yn y tŷ:</u>
Pa iaith sy'n cael ei siarad fwyaf yn y cartref? - Cymraeg / Saesneg / Arall (bocs i sgwennu pa un) / Mwy nag un iaith yn gyfartal (bocs i sgwennu pa rai)

<u>Os oes 1 person yn byw yn y tŷ:</u>
Pa iaith yw eich iaith gyntaf? – Cymraeg / Saesneg / Arall *(bocs i sgwennu pa un)*

*Rheswm dros symud yma*

Pam wnaethoch chi symud yma?

Pam symud i'r ardal yma?

Pam dewis tŷ newydd?

Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?

Os wedi symud o ardal arall – cysylltiad blaenorol efo'r ardal?